*These notes refer to the Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (c.1)*

# DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 8 – Dehongli a Darpariaethau Terfynol

### *Atodlen 4 – Cydnabyddiaeth drethadwy*

### Trafodiad tir yr ymrwymir iddo o ganlyniad i gyflogaeth

186. Pan fo’r prynwr yn gyflogai y telir ei rent (yn llwyr neu’n rhannol) gan ei gyflogwr a bod gwerth y rhent hwnnw yn agored i dreth incwm (fel rhan o incwm y cyflogai), mae paragraff 13 yn darparu y cymerir mai swm cyfwerth ag arian parod y swm hwnnw yw’r rhent sy’n daladwy gan y prynwr at ddibenion prisio’r gydnabyddiaeth drethadwy. Pan ddarperir y llety am gyflawni dyletswyddau’r cyflogai (ac nad yw o ganlyniad yn agored i dreth incwm), ni chymerir bod gwerth y rhent yn gydnabyddiaeth drethadwy. Mewn achosion eraill, y gydnabyddiaeth drethadwy yw gwerth marchnadol testun y trafodiad.